Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 6ED CHWEFROR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***


Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**

**Aelodau a phleidlais**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| David Roberts | Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| Edgar Wyn Owen | Parc Cenedlaethol Eryri |

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol**

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Swyddogion yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y CBC / Cyfarwyddwr Portffolio |
| Iwan Evans | Swyddog Monitro |
| Claire Incledon | Dirprwy Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Hedd Vaughan-Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 05 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 3** 10 - 39

Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau, i gyflwyno’r adroddiad.

**6. CYLLIDEB 2026/27** 40 - 46

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid, a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid, i gyflwyno’r adroddiad.

**7. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2025** 47 - 55

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid, a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid, i gyflwyno’r adroddiad.

**8. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM - CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL (ADP) BLWYDDYN 2** 56 - 63

Alwen Williams, Prif Weithredwr, ac Iain Taylor, AMION Conslting, i gyflwyno’r adroddiad.

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o’r fath heb ei gyhoeddi. Mae’r adroddiad yn benodol ynglyn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r cyrff a’r CBC ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a’r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 10. PADESWOOD - CAIS AM NEWID

Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau, i gyflwyno’r adroddiad.

## 11. ACHOS BUSINES AMLINELLOL PORTH BUSNES WRECSAM

Elliw Hughes, Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf, i gyflwyno’r adroddiad.

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**
**05/12/2025**

**Yn bresennol:**

**Aelodau â Phleidlais** - Y Cynghorwyr:- Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais)** - Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor), Yr athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Edgar Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Jonathan Cawley (Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion Cynghorau Cyfansoddol** - Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Awdurdod Lletya** - Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro dros dro) ac Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth).

**Uchelgais Gogledd Cymru** – Alwen Williams (Prif Weithredwr) Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol) Sian Lloyd Roberts (Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol) a David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC).

**Sylwedyddion** – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Robin Williams yn dirprwyo
- Yr Athro Edmund Burke, Prifysgol Bangor, gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo ar ei ran
- Yana Williams o Brifysgol Cambrian
- Y Prif Swyddogion canlynol: Graham Boase o Cyngor Dinbych, Neal Cockerton o Gyngor Sir Fflint. Dafydd Gibbard o Gyngor Gwynedd a Dylan Williams o Gyngor Ynys Mon.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Aled Jones-Girffiths (Grŵp Llandrillo Menai) ac Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor) ar gyfer eitem 8 - Ysgol Fusnes Albert Gubay, Prifysgol Bangor, Achos Busnes Amlinellol. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 03 Hydref 2025 a 07 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO 2025 A CHYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd diweddariad 2025 Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid blynyddol.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio gyflwyno'r holl ddogfennaeth ofynnol a'r ffurflen cais i newid i Lywodraethau Cymru a'r DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid blynyddol a dirprwyo hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog 151 i negodi gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar amseriad dyfarnu'r cyllid ac i wneud unrhyw fân addasiadau ar gais y naill lywodraeth neu'r llall.

Cymeradwywyd Cynllun Busnes Cyffredinol 2026-2030 wedi'i ddiweddaru sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Nodwyd diweddariad llafar yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio 2025 ac yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

Mae'n ofynnol, fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni a Chyllido (Cytundeb Llywodraethu 2 gynt), i bartneriaid Cynllun Twf Gogledd Cymru ddiweddaru'r Cynllun Busnes Cyffredinol bob pum mlynedd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn ddiweddariad blynyddol i’r achos busnes y portffolio a chynllun busnes cyffredinol. Eglurwyd ei bod yn ofyniad i ddiweddaru’r Achos Busnes yn flynyddol yn rhan o’r broses dyfarnu cyllid blynyddol.

Amlygwyd yr addasiadau sydd wedi ei wneud i’r Cynllun Busnes a oedd yn cynnwys man ddiweddariadau i’r Achos Strategol, newidiadau mwy i’r Achos Economaidd er mwyn adlewyrchu Achosion Busnes sydd wedi eu cymeradwyo ac wedi eu haddasu dros y 12 mis diwethaf, ynghyd a’r drefn i greu’r Rhestr o Gynlluniau wrth gefn.

Nodwyd bellach fod 6 cynllun yn cyflawni, 9 Achos Busnes Llawn wedi’i gymeradwyo ond ddim yn weithredol, 4 Achos Busnes Amlinellol wedi’i gymeradwyo ac yn gweithio tuag at

Achos Busnes Llawn, 1 yn datblygu tuag at Gynllun Busnes Amlinellol, 1 prosiect dan risg ac yn adrodd yn goch a 18 prosiect ar y rhestr wrth gefn. Amlygwyd fod hyn yn gynnydd sylweddol o Hydref 2024 gyda gwariant wedi cynyddu dros £20m a ynghyd a 23 swydd ychwanegol i'r rhanbarth.

Amlygwyd fod yr Achos Busnes Portffolio wedi edrych ar y gwariant ar arian sydd dros ben ar gyfer cyfnod y cynllun gan amlygu'r senario gorau, canolig a gwaethaf ar gyfer swyddi a gwariant.

Cadarnhawyd fod adolygiad wedi ei gynnal sydd wedi sicrhau fod y cynnydd ar y Cynllun Twf wedi symud eleni o lefel coch i lefel ambr. Eglurwyd fod hyn yn adlewyrchiad positif iawn o'r gwaith sydd wedi ei wneud dros y 12 mis, a bod hyn yn newid cam sylweddol ond fod risgiau yn cael ei amlygu. Eglurwyd y bydd yr asesiad yn llawn yn cael ei hanfon i'r aelodau dros yr wythnosau nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff am gynnal yr asesiad ac am eu gwaith dros y flwyddyn. Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud i symud cynlluniau yn eu blaen a'u bod wedi symud o lefel coch i lefel ambr. Amlygwyd fod y camau sydd wedi ei wneud yn dderbyniol gan y Llywodraeth yn ogystal.

Pwysleisiwyd yr angen i barhau ar waith i symud ymlaen ac i beidio tynnu troed oddi ar y sbardun. Llongyfarchwyd i'r holl staff am eu gwaith yn symud y cynlluniau yn eu blaen.

**6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Pleidleisiwyd ar y cynnig i gau allan y wasg a'r cyhoedd a bu i'r Cynghorydd Nia Jeffreys atal ei phleidlais ar yr eitem hon.

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitemau 7-10 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r CBC ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

**7. RHAGLEN UWCHRADDIO PORTHLADD MOSTYN, ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Mathews , Reolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes (ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+ ) ar gyfer Rhaglen Uwchraddio Porthladd Mostyn, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd.

Dirprwywyd y Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gadarnhau'r costau a'r buddion terfynol ar

ôl caffael yn unol â'r achos busnes cymeradwy ac yn ymrwymo i gytundeb cyllido gyda Phorthladd Mostyn Ltd ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar y Porthladd yn mynd i'r afael â'r materion sydd heb eu datrys yn adran 7 yr adroddiad ac yn sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

Cadarnhau fod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i gytundeb cyllido wedi'i lofnodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod angen cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes+ ar gyfer prosiect Uwchraddio Porthladd Mostyn.

Eglurwyd fod yr ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+ yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ar 5 Rhagfyr cyn cwblhau'r caffael oherwydd gofyn masnachol i benodi contractwyr i symud ym mis Ionawr 2026 a dechrau Camau 1 a 2 o'r gwaith ym mis Chwefror.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**8. YSGOL FUSNES ALBERT GUBAY, PRIFYSGOL BANGOR, ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Reolwr y Rhaglen y Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol (OBC) ar gyfer Ysgol Fusnes Albert Gubay yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Prifysgol Bangor yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y disgrifir yn Adran 7, ac yn gofyn i Achos Busnes Llawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.

Awdurdodi’r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel sail i'r trefniadau ariannu terfynol i’r prosiect gael eu hymrwymo yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.

Cadarnhau fod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn gymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd gofyn dychwelyd a chynrychioli'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Ysgol Fusnes Albert Gubay.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**9. PROSIECT GWELLA RHEILFFYRDD PADESWOOD – ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Mathews,  Reolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Padeswood yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Cyngor Trafnidiaeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod y drafodaeth, a gofyn i Achos Busnes Lawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel sail i'r trefniadau cyllido terfynol ar gyfer y prosiect yn amodol ar gymeradwyaeth Achos Busnes Llawn.

Cadarnhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn sicrhau caniatâd cynllunio ac yn mynd ymlaen i Achos Busnes Lawn gymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r OBC ar gyfer Prosiect Gwella Rheilffyrdd Padeswood.

Nodwyd fod yr Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ar 5 Rhagfyr fel y gall Trafnidiaeth Cymru sicrhau'r cyllid ar gyfer y Prosiect.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 10. CAIS AM NEWID ANTURIAETHAU CYFRIFOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd i'r cais am newid ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol gan gynnwys yr elfen arfaethedig ym Metws-y-coed yn lle'r eFws.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae ceisiadau am newidiadau i brosiectau gan Noddwyr Prosiectau yn faterion i'r Is-bwyllgor eu penderfynu.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 11:05

______________________________________

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

6ed o Chwefror, 2026

**TEITL:** Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 3

**AWDUR:** Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 3 (Hydref i Rhagfyr) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3
- Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2025

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 3 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd achosion busnes ar gyfer pump o brosiectau ar y rhestr wrth gefn, gan ei cymeradwyo yn ffurfiol i fod yn rhan o'r Cynllun Twf. Roedd yn cynnwys tair Achos Gyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiectau Society 5.0 Gweithgynhyrchu a Gallu, Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn, ac Porth y Porthladd Rhydd; ynghyd a dwy Achos Fusnes Amlinellol ar gyfer y prosiectau Prosiect Prince ac Dyfodol Venue Cymru.

4.4.3. Cafodd yr ail Adolygiad Portffolio ei gwblhau, gan ystyried y prosiectau oedd yn adrodd yn goch. Penderfynodd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd i: symud prosiect Porth Caergybi ac Porth y Gorllewin i'r rhestr wrth gefn; i drosglwyddo prosiect Warren Hall i'r Parth Buddsoddi; ac i gadw Hwb Hydrogen Caergybi am chwe mis pellach. Rhyddhaodd hyn £58m o arian i gael ei ail fuddsoddi gan yr Is-Bwyllgor.

4.4.4. Cymeradwywyd dau gais am newid. Ar gyfer Cyn Ysbyty Gogledd Cymru cymeradwywyd i ryddhau cyllid ar gyfer Gwedd 1 y gwaith dymchwel ac ecolegol. Ar gyfer Anturiaethau Cyfrifol cymeradwywyd i gynnwys Uwchgynllun Betws y Coed gyda dau elfen ychwanegol yr gwaith galluogi ac y rhwydi 'Hero'.

4.4.5. Cwblhawyd y Cytundeb Ariannu Grant ar gyfer Hwb Economi Wledig Glynllifon yn mis Tachwedd, gyda chwmni lleol Adeiladwaith OBR yn cael ei penodi i adeiladu Defaid Llaeth Cymru.

4.4.6. Yn ystod y chwarter cynhaliwyd dau ddigwyddiad lansio. Agorodd Prifysgol Wrecsam yr adeilad CanfodAu yn swyddogol ar y 7fed o Dachwedd fel rhan o brosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter. Lansiodd Grŵp Llandrillo Menai Academi Croeso (gynt y Rhwydwaith Talent Twristiaeth) yn Theatr Clwyd ar y 13eg o Dachwedd.

4.4.7. Penodwyd dau Ymgynghorydd Anweithredol, Dave Penrith ac Nick Bennet. Bydd y ddau yn chwarae rhan blaenllaw fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn ffurfio y Bwrdd Ymgynghori Busnes newydd.

4.4.8. Mae diweddariad Chwarter 3 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Mae un prosiect yn adrodd yn goch ar ddiwedd y chwarter, ac yn cael ei adolygu.

- Hwb Hydrogen Caergybi – prosiect yn cael ei adolygu, gyda materion allweddol a risgiau yn parhau i gael ei datrys.

4.4.9. Ar gymeradwyo Achos Fusnes Llawn y Gronfa Ynni Glan yn Mai 2025, gofynnodd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd i dderbyn diweddariad ar gynnydd y prosiect o fewn chwe mis. Mae Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o'r cynnydd ers i'r Achos Fusnes Llawn gael ei chymeradwyo.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2025</u>

4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Doedd dim newid i’r risgiau gweddilliol y chwarter hwn.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog yn gyffredinol yn ystod y chwarter diwethaf, mae’r proffil risg yn parhau yn uchel gyda pedwar o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys buddsoddiad sector breifat, amcanion gwariant, cynllunio a chaniatâd statudol, ac cyd-destun economaidd.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3

**Atodiad 2:** Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2025

**Atodiad 3:** Diweddariad interim y Gronfa Ynni Glan

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Un o brif dasgau'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Is-Bwyllgor ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 3. Ni fydd gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol.”

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cynllun Twf Gogledd Cymru
# Adroddiad Perfformiad Chwarterol

## 2025-26 Chwarter 3
## (Hydref - Rhagfyr 2025)



# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| 02 | Dashfwrdd Cyflawni Prosiect | 4 |
| 03 | Dashfwrdd Buddion | 5 |
| 04 | Perfformiad y Rhaglen Cysylltedd Ddigidol | 6 |
| 05 | Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel | 8 |
| 06 | Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo | 10 |
| 07 | Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 13 |
| 08 | Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 15 |
| 09 | Olrhain Cynnydd y Prosiectau | 17 |
| 10 | Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 19 |
| | ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf | 20 |

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Yn ystod y chwarter hwn, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd bum prosiect o'r Rhestr Wrth Gefn i ymuno â'r Cynllun Twf:

- Achos Busnes Amlinellol Prosiect Prince
- Achos Cyfiawnhad Busnes Society 5.0 Gweithgynhyrchu a Gallu
- Achos Cyfiawnhad Busnes Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn
- Achos Cyfiawnhad Busnes Porth y Porthladd Rhydd
- Achos Busnes Amlinellol Dyfodol Venue Cymru

Yn ystod mis Hydref, cwblhawyd ail Adolygiad Portffolio, gan ystyried y prosiectau a oedd yn adrodd yn goch. Gwnaeth yr Is-bwyllgor benderfyniadau i:

- Symud prosiect Porth Caergybi i'r rhestr wrth gefn
- Symud prosiect Porth y Gorllewin i'r rhestr wrth gefn
- Trosglwyddo prosiect Warren Hall i'r Parth Buddsoddi
- Cadw Hwb Hydrogen Caergybi am chwe mis arall

Rhyddhaodd hyn £58m arall o gyllid i'w ail-fuddsoddi gan yr Is-bwyllgor.

Cymeradwywyd cais am newid ar gyfer prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru i ryddhau cyllid ar gyfer Cam 1, y gwaith ecolegol a'r gwaith dymchwel. Cymeradwywyd cais am newid ar gyfer yr Antur Gyfrifol hefyd i gynnwys uwchgynllun Coedwig Betws-y-coed gyda dwy elfen ychwanegol, y gwaith galluogi a'r cynnyrch rhwydi Hero.

Cwblhawyd y Cytundeb Arian Grant ar gyfer Hwb Economi Wledig Glynllifon ym mis Tachwedd, gyda'r cwmni lleol, OBR Construction, wedi'i benodi ar gyfer y gwaith adeiladu ar gyfer Defaid Llaeth Cymru.

Y chwarter hwn, braf oedd cael dod â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o ogledd Cymru at ei gilydd i ddau ddigwyddiad lansio prosiect. Cynhaliodd Prifysgol Wrecsam agoriad swyddogol i'w hadeilad CanfodAu ar 7 Tachwedd fel rhan o'i phrosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter. Mynychodd mwy na 100 o gynrychiolwyr y digwyddiad, a oedd yn cynnwys teithiau o amgylch yr hwb byd-eang ar gyfer gweithgynhyrchu uwch, gwerth uchel, gan arddangos sut mae'r cyfleuster yn gyrru arloesi a chynaliadwyedd drwy gydweithrediad agos rhwng y byd academaidd a diwydiant.

Lansiwyd Academi Croeso Grŵp Llandrillo Menai (prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth gynt) yn Theatr Clwyd ar 13 Tachwedd. Roedd hon yn garreg filltir bwysig i dwristiaeth a sgiliau ac yn gyfle gwych i rwydweithio.

Rhyddhawyd ail wedd yr arian ar gyfer prosiect Cydnerth ym mis Hydref, ac mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Derbyniodd y Gronfa Ynni Glân fynegiadau o ddiddordeb ar draws y tair is-gronfa.

Cynhaliom gyfarfod cyntaf y fforwm telathrebu rhanbarthol gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol ac o'r diwydiant.

Fe wnaethom benodi Dave Penrith a Nick Bennett fel ein Hymgynghorwyr Anweithredol. Gyda'i gilydd, maent yn dod ag arbenigedd diwydiant helaeth mewn prosiectau cyfalaf, llywodraethu, peirianneg, trawsnewid digidol, a datblygu economaidd i helpu i hyrwyddo twf cynaliadwy a denu buddsoddiad i'r rhanbarth. Byddant yn chwarae rolau blaenllaw fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd wrth ffurfio Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd, a fydd yn cynrychioli busnesau a chyflogwyr ledled gogledd Cymru. Ar ôl ei sefydlu, prif bwrpas y Bwrdd fydd darparu cyngor annibynnol a her adeiladol i Uchelgais Gogledd Cymru.

Wrth i'n prosiectau Digidol symud i'r cyfnod cyflawni, croesawyd dau Reolwr Ymgysylltu newydd i'r tîm, Dave Evans ac Elinor Emsley. Ynghyd ag Elen Wyn Owen fel Swyddog Cymorth Corfforaethol. Mae'r recriwtio yn parhau i'r swyddi sy'n weddill o fewn y tîm.



**Alwen Williams**

**Prif Weithredwr**
**Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 DASHFWRDD CYFLAWNI PROSIECTAU

| | Prosiectau Gweithredol (cyllid wedi neilltuo) | Wedi cymeradwyo ddim eto yn weithredol (cyllid wedi neilltuo) | Datblygu Achosion Busnes (cyllid wedi neilltuo) | O dan adolygiad (cyllid wedi glustnodi) | Rhestr wrth gefn (dim cyllid wedi glustnodi) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer prosiectau | 6 | 6 | 3 | 4 | 21 |
| Dyraniad Cyllid Cynllun Twf (£234.85*) | £55.84m | £51.52m | £14.93m | £61.95m | £50.61m |
| Cyfanswm Buddsoddiad | £127.46m | £160.43m | £35.01m | £312.59m | £359.36** |
| Swyddi | 836 | 461 | 1,048 | 1,268 | 920** |

** Nid yw'r cyllid Cynllun Twf sy'n cael ei ddangos yma yn cynnwys £5.15m sydd wedi'i ddyrannu tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio*

*** Mae'r ffigyrau yn cynrychioli cydbwysedd y targed sydd i'w gyflawni gan y prosiectau ar y Rhestr Wrth Gefn*

# 03 DASHFWRDD BUDDION

**Swyddi Grewyd (Targed 4,000 o swyddi newydd)**
**Job Creation (Target 4,000 new jobs)**

| Swyddi Newydd / New Jobs | Swyddi Adeiladwaith / Construction Jobs | Swyddi Ddiogelwyd / Safeguarded Jobs |
|---|---|---|
| 49 | 49 | 0 |

**Buddsoddiad (Targed: £1bn Cyfanswm Buddsoddiad)**
**Investment (Target: £1bn Total Investment)**

| Budsoddiad Cynllun Twf / Growth Deal Investment | Cyfanswm Buddsoddiad / Total Investment | Refeniw Ddiogelwyd / Revenue Secured |
|---|---|---|
| £26,859,319 | £29,189,938 | £5,128,193 |

**Buddion ehangach**
**Wider Benefits**

| Measure | Value |
|---|---|
| Incwm Cyfalaf wedi'i Drosoleddu / Capital Income Levereged | £81,016.80 |
| Gofod Llawr wedi'i Ddatblygu / Floorspace Developed | 2,349m$^2$ |
| Unigolion wedi ymgysylltu / Individuals engaged | 3,383 |
| Camau gweithredu i gryfhau cadwyni cyflenwi / Actions to strengthen local supply chains | 19 |
| Myfyrwyr yn cwblhau cymhwysterau / Students completing qualifications | 51 |
| Unigolion sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddi CPD / Individuals completing CPD training courses | 286 |

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
| --- | --- |
| | • Mae'r broses o recriwtio rheolwr prosiect Campysau Cysylltiedig wedi'i chwblhau, ac mae disgwyl i'r swyddog newydd ddechrau yn y rôl ym mis Ionawr.<br>• Mae'r celloedd bach 4G cyntaf i'w defnyddio gyda seilwaith sy'n eiddo i awdurdodau lleol drwy gytundebau mynediad agored bellach wedi'u comisiynu ac yn darparu gwasanaeth yn Sir y Fflint. Mae pedwar cytundeb wedi'u llofnodi hyd yma ar draws y rhanbarth gyda mwy i ddod yn Ch4. Mae rhagor o gelloedd bach yn cael eu cynllunio ac mae disgwyl iddynt gael eu comisiynu yn gynnar yn 2026.<br>• Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y fforwm telathrebu rhanbarthol y chwarter hwn gyda chynrychiolaeth gan awdurdodau lleol a'r diwydiant.<br>• Mae un ar bymtheg o ffermydd bellach yn derbyn cymorth i dreialu technoleg LoRaWAN trwy'r prosiect SPF a disgwylir i'r gwaith o osod rhwydweithiau gael ei gwblhau ym mis Ionawr. |



Cyng. Nia Jeffreys
Aelod Arweiniol



Ian Jones
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL


| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Mae 50% o'r gwariant ar gyfer cam olaf y cyfarpar wedi'i gwblhau, a disgwylir yr eitemau sy'n weddill erbyn mis Mawrth 2026. | • Cyflenwi cyfarpar pellach.<br>• Lansio ymgysylltiad busnes rhanbarthol strwythuredig. | | • Cam olaf y prynu ar y gweill.<br>• Mae'r prosiect yn methu'r targed o ran sicrhau arian grant ychwanegol. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **4G+** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Recriwtio i rôl yr ail Reolwr Ymgysylltu.<br>• Cwblhau dyluniad y Cynllun Grant a lansiad y cynllun. | • Cwblhau dyluniad y Cynllun Grant a lansiad y cynllun.<br>• Ail wedd o gelloedd bach i gael ei chomisiynu.<br>• Ail gyfarfod y fforwm telathrebu i gael ei gynnal. | | • Mae'r gwaith cychwynnol o osod seilwaith celloedd bach wedi'i gwblhau ac mae ail wedd wedi'i chomisiynu a bwriedir ei gosod erbyn diwedd Ch4. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **Di-wifr Uwch** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Recriwtio Rheolwr Prosiect a Rheolwr Ymgysylltu. | • Cwblhau dyluniad y Cynllun Grant a lansio'r cynllun.<br>• | | • Recriwtio wedi'i gwblhau. |
| | **LPWAN** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Pryniannau cychwynnol a gosod pyrth.<br>• Cynlluniau defnydd LoRaWAN terfynol i gael eu cyflwyno. | • Y cynghorau sy'n cymryd rhan i brynu mwy o byrth.<br>• Gweithgaredd hyrwyddo i ddechrau. | | • Mae defnyddio LPWAN wedi dechrau gyda chynlluniau defnyddio pellach i'w cymeradwyo yn Ch4 ac yna mwy o osodiadau. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

## Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Cydnerth** - Rhyddhawyd ail wedd yr arian ym mis Hydref ac mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo.<br>• **Ynni Lleol Blaengar (Cronfa Ynni Glân)** - Datganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn ar gyfer pob un o'r 3 is-gronfa |



**Cyng. Gary Pritchard**
**Aelod Arweiniol**



**Dylan Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Meghan Davies**
**Rheolwr Rhaglen**

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Talwyd ail daliad y benthyciad ym mis Hydref<br>• Gwaith adeiladu ar y gweill<br>• Monitro buddion ar y gweill | • Trydydd taliad y cyllid wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ionawr 2026 | Green | • Mae'r prosiect wedi symud i gyflawni ac mae'n mynd rhagddo'n dda. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cwblhau a chyflwyno gwaith dylunio cam 4 RIBA<br>• Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cyflwyno Achos Busnes Llawn | Amber | • Mae'r prosiect yn ambr oherwydd oedi wrth aros am benderfyniad ar gyllid Porthladd Rhydd Llywodraeth y DU. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar yr Achos Busnes Llawn. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Cronfa wedi'i lansio ac ar agor ar gyfer Mynegi Diddordeb ar draws pob un o'r 3 is-gronfa<br>• Ceisiadau llawn wedi'u derbyn ar gyfer is-gronfa wirfoddol<br>• Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltu, gan gynnwys darlledu podlediad | • Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltiad<br>• Dilyniant ceisiadau hyd at ddyfarnu | Green | • Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo a'r gronfa wedi'i lansio. |
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Prosiect yn cael ei adolygu | • Adolygwyd y prosiect ac mae'n parhau o fewn y rhaglen am 6 mis arall<br>• Trafodaeth barhaus rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn agosáu at ganlyniad i sicrhau a throsglwyddo cronfeydd gwerth £4.8m o gyllid Adran Diogelwch Ynni a Sero Net. | • Menter Môn yn parhau i ymgysylltu i ddenu cymeriant<br>• Cadarnhad posib gan DESNZ o ran £4.8m<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol | Red | • Mae'r statws RAG yn parhau'n goch wrth i faterion allweddol sy'n parhau gynorthwyo gyda'r datrysiad: Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, Adran Trafnidiaeth; Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net £4.8 miliwn. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

## Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Parc Bryn Cegin, Bangor -** Cwblhawyd y gwahoddiad i dendro ar gyfer y prif gontractwr ddiwedd mis Hydref a phenododd Llywodraeth Cymru Read Construction Ltd ym mis Rhagfyr.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** – Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor ryddhau £2m gyda'r dewis i ryddhau £1m arall i'r Cyngor i ddarparu pecyn o waith dymchwel ac adfer. Dechreuodd pecyn newydd o waith galluogi sy'n gysylltiedig â'r prif becyn gwaith dymchwel ac adfer ym mis Tachwedd. Mae'r pecyn o waith lliniaru ecolegol wedi parhau ac mae ar y trywydd iawn i'w gwblhau ym mis Mawrth 2026.<br>• **Rhaglen** - Newidiodd y gymysgedd prosiectau o fewn y Rhaglen yn sylweddol o fewn y Chwarter gyda phum prosiect newydd yn cael eu cymeradwyo (Porth y Porthladd Rhydd, Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Ynys Môn, Prosiect Ehangu Porthladd Mostyn, Ysgol Fusnes Albert Gubay a Phrosiect Gwella Rheilffyrdd Padeswood) a symudwyd tri phrosiect i'r rhestr wrth gefn (Porth y Gorllewin, Porth Wrecsam a Chaergybi) neu Barth Buddsoddi Wrecsam a Sir y Fflint (Neuadd Warren). |



**Cyng. Jason McLellan**
**Aelod Arweiniol**



**David Fitzsimon**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen**

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Mae contract Gwaith Lliniaru Ecolegol yn parhau i wneud cynnydd da.<br>• Dechreuodd Gwaith Galluogi i ganiatáu mynediad ar gyfer dechrau ar Waith Clirio Safle ar 24 Tachwedd.<br>• Mae UGC wedi adolygu'r Cytundeb Arian Grant ar gyfer gwaith Cam 1 gyda Chyngor Sir Ddinbych.<br>• Cymeradwyodd cabinet Cyngor Sir Ddinbych gontract i gynnal cam cyntaf y gwaith dymchwel, tynnu asbestos a chlirio'r safle i gwmni peirianneg sifil lleol Jones Bros yn ystod cyfarfod cabinet yr wythnos hon a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd. | • Bydd y Gwaith Galluogi wedi'i gwblhau.<br>• Contract gwaith clirio safle i ddechrau. Cytundeb Arian Grant ar gyfer gwaith Cam 1 i'w gwblhau a'i lofnodi. | | • Mae'r sgôr risg yn parhau i fod yn ambr oherwydd y materion iechyd a diogelwch ar y safle oherwydd cyflwr yr adeiladau. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch costau oherwydd yr amgylchedd gwaith heriol a'r anhawster o asesu cost a chwmpas y gwaith yn gywir. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Yn dilyn y broses Gaffael ym mis Hydref i benodi Prif Gontractwr, mae gan Lywodraeth Cymru gynigydd a ffafrir a fydd yn cael ei benodi yn ffurfiol ym mis Rhagfyr. | • Contractwr wedi'i benodi ac amodau cynllunio cyn dechrau a'r dyluniad terfynol wedi'u cymeradwyo. | | • Mae statws RAG yn cael ei asesu fel gwyrdd, prosiect ar y trywydd iawn i'w gyflawni gan ddechrau ar y safle ym mis Ebrill 2026. |
| **Porth Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cyflwynwyd Cais Cynllunio Amlinellol a disgwylir ateb i'r mater Ffosffadau yn 2026.<br>• Trafodaethau yn parhau gyda thirfeddianwyr ynghylch cynulliad tir.<br>• Llythyr telerau wedi'i gyflwyno i ddarpar brif feddiannydd adeilad swyddfa arfaethedig.<br>• Drafft Achos Busnes Amlinellol wed'i dderbyn ym mis Rhagfyr i'r PMO ei adolygu. | • Caniatâd cynllunio amlinellol.<br>• Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol.<br>• Penawdau Telerau ar gyfer cytundebau cyn-gosod i feddianwyr y sector cyhoeddus a phreifat.<br>• Cytunwyd ar ddull carbon a bioamrywiaeth.<br>• Cytundebau Perchennog Tir. | | • Mae'r sgôr risg yn wyrdd gan fod y prosiect yn mynd rhagddo i gam cais Achos Busnes Amlinellol/Cynllunio Amlinellol. |
| **Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn**<br>Cyngor Sir Ynys Môn | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Cymeradwywyd yr Achos Cyfiawnhau Busnes gan yr Is-bwyllgor ym mis Hydref.<br>• Penawdau'r Telerau ar gyfer cyllid wedi'u rhannu gyda Chyngor Sir Ynys Môn. | • Asesiad Rheoli Cymhorthdal.<br>• Cwblhau Caffael a phenodi'r Prif Gontractwr.<br>• Cwblhau Menter ar y Cyd â Llywodraeth Cymru.<br>• Cwblhau dogfennaeth Trawsnewid Trefi ar gyfer Adeilad y Derfynfa Forol. | | • Ystyrir bod y risgiau i gyd o fewn paramedrau derbyniol gyda chynllunio a pherchnogaeth tir wedi'u datrys. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| R006 | 21.10.2020 | Amgylcheddol | Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. | 4 | 3 | 12 | ↔ | Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais.<br><br>Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa sydd wedi'i fabwysiadu.<br><br>Methodoleg ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau bellach wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda'r holl brosiectau<br><br>Methodoloeg gryno ar gyfer prosiectau llai a risg isel yn cael ei ddatblygu gyda'r WLGA ar gyfer ei fabwysiadu | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>Ebrill 2025 | BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Cario ymlaen i weithredu'r fethodoleg a'r hyfforddiant cysylltiedig | 16/12/2025 |
| R020 | 03.10.2022 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Y Cyd-destun Economaidd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes newidiadau sylweddol i economi'r DU (e.e. yr argyfwng costau byw a'r argyfwng diogelwch ynni), gall hyn effeithio'n andwyol ar achosion strategol ac economaidd rhaglenni a phrosiectau. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau, yn cynnwys effaith datblygiadau economaidd diweddar | N/A | PMO, Arianwyr y Prosiectau | 3 | 5 | 15 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau er yn dilyn newidiadau diweddar mewn tariffau byd-eang mae'n bosibl bydd risg pellach.<br><br>Gall y cynnydd mewn costau NI ac lleiafswm cyflog yn Ch1 2025/26 effaithio ar gadwyni cyflenwi ar draws prosiectau ar gyfer adeiladwaith ac gweithredu.<br><br>Datblygu materion byd-eang sy'n effeithio ar gadwyni cyflenwi a'r farchnad ynni sy'n debygol o effeithio ar gostau yn y tymor byr i'r tymor canolig. | 16/12/2025 |


| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R018 | 01.10.2020 | Ariannol | Cyllid refeniw | Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect | Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy<br><br>Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO i gyfalafu posib costau cyflog sy'n gysylltiedig a cyflawni prosiect lle'n briodol ac yn unol ar canllawiau.<br><br>Haenen uchaf y Cynllun Twf wedi ei gynyddu i 2.15%, a galluogi ymestyn cytundebau dros dro.<br><br>Cais SPF i'r 6 Awdurdod Lleol wedi bod yn llwyddiannus. | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi gwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.<br><br>Cyllideb ar gyfer 25/26 wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais yn Chwefror 2025. | 16/12/2025 |
| R019 | 01.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectau a gallai buddion rhanbarthol fod yn is. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi.<br><br>RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau<br><br>Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>Arianwyr y Prosiectau | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae cydweithio agos rhwng y PMO a'r RSP ar sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn allweddol i leihau tebygolrwydd y risg hon. Mae hwn yn weithgaredd parhaus i sicrhau bod y capasiti a'r sgiliau yn y rhanbarth i fanteisio ar y cyfleoedd drwy'r Cynllun Twf. | 16/12/2025 |
| R020 | 26/04/2024 | Rheoleiddio | Rheoli Cymhorthdal | Swyddfa Rheoli Portffolio | Cysylltedig gyda risg buddsoddiad Sector Breifat R008: Os na fydd asesiadau rheoli cymhorthdal yn cael ei cadarnhau gall cymeradwyo ariannu gael ei oedi neu ei beryglu. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Adolygu opsiynau ar gyfer dim buddsoddiad cymhorthdal e.e. benthyciadau masnachool<br><br>Trafod manylion ac asesiadau gyda noddwyr prosiect mor fuan a sydd bosibl (taflen telerau)<br><br>Ymgynghori gyda cymorth cyfreithiol yn fuan ar asesiadau Rheoli Cymhorthdal<br><br>Arweinydd Rheoli Cymhorthdal a cefnogaeth wedi ei adnabod o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio | Fel camau SOC-FBC | Rheolwyr Rhaglen | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Risg newydd. Sialens gyda cwblhau yr asesiadau 7 egwyddor, cal cefnogaeth gan Pinsents ond mae angen i rhain gael ei cyfarch yn gynt yn y broses sicrwydd e.e. taflen telerau cyn cwblhau yr Achos Busnes Amlinellol. | 16/12/2025 |
| R016 | 22.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Sicrwydd | Pennaeth Gweithrediadau | Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol.<br><br>Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP)<br><br>Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP<br><br>Proses wedi symleiddio ar gyfer sicrwydd wedi gyflwyno ar gyfer prosiectau newydd. | Wedi cwblhau<br><br>Chwarterol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Arweiniodd adolygiad sicrwydd ym mis Hydref 2024 at 4 o argymhellion i'w cynnal gan y PMO. Bydd cynllun gwaith yn cael ei roi mewn lle i weithredu rhain. | 16/12/2025 |
| R017 | 22.10.2020 | Ariannol | Rheolaeth Ariannol | Swyddog a151 | Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya.<br><br>Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr | N/A<br><br>N/A<br><br>Misol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae risg gweddilliol yn parhau i fod yn isel oherwydd y prosesau sydd ar waith gan Uchelgais Gogledd Cymru a'r cytundebau ariannu gyda noddwyr prosiectau. | 16/12/2025 |
| R014 | 22.10.2020 | Ariannol | Twyll | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle gan gynnwys gwiriadau diwydrwydd ar noddwyr prosiect a derbynwyr yr arian.<br><br>PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu<br><br>Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o'r Cytundeb Llywodraethu<br><br>Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol. | N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>Swyddog Monitro<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae'r risg gweddilliol yn parhau yn isel oherwydd y prosesau sydd mewn lle gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae sesiynau pellach o hyfforddiant twyll wedi'i gynllunio ar gyfer y PMO a'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn mis Mai 2024.<br><br>O 2025 bydd prosiectau sy'n cael eu cyflawni yn cynnwys cynlluniau grant/cronfa yn cael eu rheoli yn unol â dull PMO o ymdrin â diwydrwydd dyladwy. | 16/12/2025 |


| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R013 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Newid Gwleidyddol | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol.<br><br>GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon.<br><br>Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth<br><br>Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU | N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Parhaus | Uchelgais Gogledd Cymru, PMO<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae'r risg yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd. Briffio gyda Gweinidogion UK yn parhau. Etholiadau Sennedd a Llrol yn 2026 ac 2027 yn golygu gall y risg gynyddu yn y dyfodol. | 16/12/2025 |
| R021 | 26/04/2024 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Mudo i'r CBC | Cyfarwyddwr Portffolio | Trosglwyddo y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC yn 2024. Os na fydd staffio ac trefniadau prosesau yn cael ei rheoli yn effeithiol bydd risg i weithrediadau a gall bod oedi gyda cyflawni prosiectau. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Ymgynghoriad TUPE gyda staff<br><br>Effaith ar bolisiau a phrosesau i gael ei adolygu cyn trosglwyddo yn llawn | Wedi gwblhau | Cyfarwyddwr Portffolio | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Risg newydd. Cwblhawyd y cyfnod pontio ar Ebrill 25<br><br>Dim newidiadau i sgoriau risg gros na gweddilliol. Mae gwaith ar y gweill i adolygu effeithiau posibl a chytuno ar bolisïau a phrosesau ar gyfer y CBC newydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. | 16/12/2025 |

# Atodiad 3 – Diweddariad Interim y prosiect Cronfa Ynni Glan

Ar gymeradwyo Achos Fusnes Llawn y Gronfa Ynni Lleol ym Mai 2025, gofynnodd yr Bwrdd Uchelgais am ddiweddariad cynnydd o fewn chwe mis. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r cynnydd ers i'r gronfa gael ei lansio yn Gorffennaf 2025.

- Lansiwyd y Gronfa Ynni Lleol yn swyddogol ar y 10fed o Orffennaf 2025, gyda digwyddiad llwyddiannus gyda dros 90 o bobl yn bresennol.
- Ers lansio, cyflwynwyd 44 o ddatganiadau diddordeb ac mae 5 cais llawn wedi ei cyflwyno ac yn cael ei adolygu gyda phapurau buddsoddi yn cael eu paratoi. Ystyriwyd bod un cais yn anghymwys oherwydd and oedd yn bodloni meini prawf y gronfa. Mae siart 1 a 2 isod yn dangos y datganiadau diddordeb a'r prif fath o dechnoleg a dderbyniwyd hyd yn hyn. Rydym wedi cael sawl sgwrs ynglŷn a'r is-gronfa wrth gefn gyda thrafodaethau parhaus ynghylch Uchelgais Gogledd Cymru yn cymryd ecwiti mewn prosiect cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Mae ymgysylltiad cryf wedi parhau gan Uchelgais Gogledd Cymru, UMi a WCVA. Mae dros 70 o ymgysylltiadau wedi'u cynnal ac maent yn amrywio o gyfarfodydd 1:1, mynychu cynadleddau a chyflwyniadau, sioeau sirol, digwyddiadau cyllid, ffeiriau cyllido awdurdodau lleol. Mae'r rhwydweithiau presennol wedi cael eu trosoli gan gynnwys CBI Cymru, Siambr Fusnes, Diwydiant Sero Net Cymru, Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy, Cynghrair Ynni ar y Môr a Busnes Cymru, ond heb fod yn gyfyngedig i. Yn ogystal, mae podlediad wedi'i recordio a'i rannu gydag erthyglau ategol i gefnogi ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.
- Bu dechrau cadarnhaol ar gyfer y gronfa ac rydym yn anelu at ryddhau cyllid cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rydym wedi derbyn adborth gan fusnesau a broceriaid ynglŷn â'r amgylchedd economaidd heriol a'r amharodrwydd i gymryd risg ar ddyled fasnachol ar hyn o bryd. Rydym yn ymgysylltu â busnesau i gefnogi ac addysgu am y cynnig a'r cyfleoedd o gymryd cyllid i gefnogi eu prosiectau a'u gweithrediadau datgarboneiddio.
- Yn unol â'r achos busnes cymeradwy, byddwn yn parhau i wrando ar y farchnad ac adolygu ein Strategaeth Fuddsoddi i ymateb i anghenion y farchnad gyda'r bwriad o gwblhau adolygiad llawn cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.


Cwblhau Datganiadau o Ddiddordeb (EOIs) yn ôl Sir
12
10
8
6
4
2
0
Ynys Môn
Conwy
Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Wrecsam
Cronfa Gwirfoddol
Cronfa Preifat
Cronfa wrth Gefn


Datganiadau o Ddiddordeb (EOIs) wrth Technoleg Prif
Cyfanswm
Dadcarbonu Cerbydau (CT yn cynnwys)
Dadcarbonu Peiriannau a Pheirianwaith
CCUS
Storfa Batri/BESS
Pwmp Gwres
Llanw
Hydro
Solar
0
5
10
15
20
25
30
Cronfa Gwirfoddol
Cronfa Preifat
Cronfa wrth Gefn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

6 Chwefror 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyllideb 2026/27 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu cyllideb refeniw a chyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27.

1.2. Cyflwynydd y gyllideb i'r Bwrdd Portffolio ar 16 Ionawr 2026 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. I nodi cyllideb refeniw y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.

2.2. I nodi'r cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol a chyfraniadau llog partneriaid.

2.3. I nodi cyllideb gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae angen cyllideb flynyddol i'r Cynllun Twf er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu yn nodi'r trefniadau ariannu ar gyfer y Cynllun Twf. Yn unol â'r Cytundeb, bydd y gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cyfraniadau blynyddol gan partneriaid, cyfraniadau atodol gan awdurdodau lleol a chyfraniadau i ariannu costau benthyca prosiectau.


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Cyllideb Refeniw

5.1. Mae Atodiad 1 yn gosod cyllideb refeniw arfaethedig y Cynllun Twf fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

5.2. Cyfanswm y gyllideb wariant ar gyfer 2026/27 yw £2,946,070, gyda £469,900 yn cael ei ariannu gan cyfraniadau partneriaid, £240,000 gan cyfraniadau atodol awdurdodau lleol, £154,090 gan cyfraniadau llog partneriaid, £660,000 o'r 2.15% o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru a ddyrannwyd i ariannu gwariant refeniw, £435,350 o ddyraniad y prosiectau o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i ariannu swyddi sy'n benodol i'r prosiectau hyn a £986,730 o'r gronfa adnoddau.

5.3. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025, cymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd ar falansau grant Cynllun Twf yn 2024/25 a 2025/26 i gronfa benodol wrth gefn i ariannu rolau ychwanegol y llywodraeth, cadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol yn ogystal â chostau datblygu prosiectau. Bydd defnyddio'r gronfa hon yn 2026/27 yn gadael balans amcangyfrifedig o tua £2.9m ar 31 Mawrth 2027.

5.4. Mae'r cyfraniadau gan bartneriaid wedi'u crynhoi isod:

| | Cyfraniadau Partneriaid | Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol | Cyfraniadau Llog Partneriaid | Cyfanswm Cyfraniadau |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) | (40,000) | (18,140) | (116,870) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) | (40,000) | (6,070) | (104,800) |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) | (40,000) | (9,140) | (107,870) |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) | (40,000) | (6,780) | (105,510) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) | (40,000) | (28,370) | (127,100) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) | (40,000) | (18,970) | (117,700) |
| Prifysgol Bangor | (29,380) | | (23,270) | (52,650) |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) | | (24,250) | (53,630) |
| Coleg Cambria | (29,380) | | | (29,380) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) | | (19,100) | (48,480) |
| **Cyfanswm Cyfraniadau** | **(469,900)** | **(240,000)** | **(154,090)** | **(863,990)** |

5.5. Bydd cyfraniadau partneriaid yn aros yr un fath â 2025/26 oherwydd y gostyngiad yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2026/27 yn gwrthbwyso'r addasiad alldro ar gyfer 2025/26 a'r amcan chwyddiant cyflog ar gyfer 2026/27.

5.6. Cymeradwywyd y cyfraniadau atodol fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu ac maent yn daliad blynyddol parhaus a ddarperir gan bob Cyngor i ariannu'n rhannol gyllideb flynyddol y Cynllun Twf.

5.7. Yn 2020, comisiynwyd Arlingclose (cwmni ymgynghorol trysorlys annibynnol) i fodelu cost benthyca a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sy'n ofynnol i dalu'r gost hon, a chynhwyswyd cyfraniadau yng nghyllideb 2021/22 ymlaen. Er bod llawer o'r newidynnau a all effeithio ar y costau hyn yn parhau i fod yn ansicr, mae'r cyfraniadau diwygiedig ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael a bydd lefel y cyfraniadau sydd eu hangen ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn cael eu hadolygu eto wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael yn ystod y flwyddyn.

5.8. Mae newidiadau mewn prosiectau yn y proffil cyfalaf wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn y gost amcangyfrifedig o fenthyca o’i gymharu â’r cyfrifiad blaenorol a wnaed ar gyfer cyllideb 2025/26 a hefyd wedi newid cyfran y partneriaid o'r gost fenthyca, sy'n cael ei adlewyrchu yn lefelau cyfraniadau llog partneriaid. Mae rhai partneriaid hefyd yn arwain eu prosiectau Cynllun Twf eu hunain, ac felly mae'r gost gysylltiedig o fenthyca wedi'i ychwanegu at eu cyfraniadau llog. Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae’r cyfraniadau llog yn parhau i fod o fewn y trothwy sydd wedi eu cymeradwyo yn y Cytundeb Cyflawni ac Ariannu.

Cyllideb Cyfalaf

5.9. Mae'r gyllideb gyfalaf yn adlewyrchu'r proffil gwariant diweddaraf ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf dros y cyfnod 2021/22 i 2034/25, ynghyd â'r brigdorri 2.15% i ariannu'r gyllideb refeniw dros yr un cyfnod. Mae'n seiliedig ar amserlen y prosiectau diweddaraf, a chaiff ei adolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo.

5.10. Yn dilyn adolygiad portffolio gan Uchelgais Gogledd Cymru, cafodd rhai prosiectau’r Cynllun Twf eu dileu yn 2025/26 a sefydlwyd Rhestr Wrth Gefn. Arweiniodd hyn at newidiadau yn y proffil cyfalaf, lle sicrhaodd prosiectau newydd a oedd ar y Rhestr Wrth Gefn gyllid ar ôl derbyn cymeradwyaeth eu hachosion busnes, a symudwyd rhai prosiectau a oedd yn flaenorol yn y proffil cyfalaf i'r Rhestr Wrth Gefn.

5.11. Er y bydd y gwariant cyfalaf o £240m yn cael ei ariannu gan y grant Cynllun Twf, bydd amseriad derbyn y grant yn golygu y bydd angen benthyca yn y tymor byr. Bydd cost benthyca yn cael ei ariannu gan bartneriaid ac arianwyr prosiectau, ac mae partneriaid eisoes wedi bod yn cyfrannu swm blynyddol tuag at y costau hyn sydd wedi'i neilltuo mewn cronfa wrth gefn benodol.

5.12. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio i gytuno ar proffil ariannu diwygiedig o’r grant Cynllun Twf gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

5.13. Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi’u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas â'u prosiectau nhw.

5.14. Bydd adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd y Cynllun Twf yn cael eu cyflwyno i staff Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Gorffennaf 2026 a Rhagfyr 2026 a'i gyflwyno i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, gydag unrhyw faterion yn cael eu hamlygu a'r camau priodol wedi'u cymryd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae Uwch Swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at y gyllideb hon.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cyllideb Refeniw 2026/27 y Cynllun Twf

**Atodiad 2:** Cyllideb Gyfalaf 2026/27 y Cynllun Twf

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**Cyllideb Refeniw Cynllun Twf 2026/27** **Atodiad 1**

| Gwariant | (£) |
|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,651,470 |
| Rolau Llywodraeth Ychwanegol | 213,540 |
| Capasiti Ychwanegol Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 | 32,450 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 5,000 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 |
| Hyfforddiant | 18,000 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 15,000 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 15,000 |
| Eiddo | 32,150 |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 |
| Yswiriant | 15,720 |
| Systemau | 9,870 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **2,073,200** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 116,870 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 50,740 |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 29,430 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 42,970 |
| Technoleg Gwybodaeth | 42,420 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **282,430** |
| **Cyd-Bwyllgor** | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 |
| Ffi Archwilio Allanol | 28,350 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 25,000 |
| **Cyfanswm Cyd-Bwyllgor** | **81,350** |
| **Prosiectau** | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 100,000 |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 150,000 |
| Cefnogaeth Gyllidol Allanol | 30,000 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 |
| Sicrwydd | 25,000 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **355,000** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 154,090 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau i gronfeydd** | **154,090** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,946,070** |

## Cyllideb Refeniw Cynllun Twf 2026/27

| Incwm | (£) |
|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) |
| Prifysgol Bangor | (29,380) |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) |
| Coleg Cambria | (29,380) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (18,140) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (6,070) |
| Cyngor Sir y Fflint | (9,140) |
| Cyngor Gwynedd | (6,780) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (28,370) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (18,970) |
| Prifysgol Bangor | (23,270) |
| Prifysgol Wrecsam | (24,250) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (19,100) |
| **Eraill** | |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru | (660,000) |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (Staff Prosiectau) | (435,350) |
| Cronfa Adnoddau | (986,730) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,946,070)** |
| | |
| **Cyllideb Net** | **0** |

**2026/27 Cyllideb Cyfalaf Cynllun Twf Gogledd Cymru** **Atodiad 2**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.00 | 0.65 | 0.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | 4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.29 | 2.82 | 2.36 | 0.57 | 0.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.17 |
| Digidol | LPWAN (Campws Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.15 | 0.52 | 0.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.02 | 0.02 | 0.00 | 0.00 | 1.14 |
| Digidol | Di-Wifr Uwch (Campws Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.09 | 6.76 | 8.56 | 0.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.54 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Glân | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.83 | 5.63 | 6.95 | 6.20 | 4.02 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | NWH Ltd (Jones Bros) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 1.50 | 4.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.15 | 5.76 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.20 | 3.59 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Tir ac eiddo | Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.32 | 1.68 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.00 |
| Tir ac eiddo | Porth y Porthladd Rhydd | Cyngor Sir Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.70 | 0.78 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.48 |
| Tir ac eiddo | Ysgol Fusnes Albert Gubay | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.99 | 1.32 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.31 |
| Tir ac eiddo | Padeswood | Trafnidiaeth Cymru / Network Rail | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.10 | 2.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.20 |
| Tir ac eiddo | Porthladd Mostyn | Port of Mostyn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.00 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.58 | 1.68 | 0.70 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 9.06 | 2.18 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.99 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Cymdeithas 5.0 | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Prosiect Prince | Knauf | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 11.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.40 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 6.87 | 3.79 | 0.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 2.00 | 1.35 | 0.08 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.71 | 1.49 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Venue Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 3.44 | 0.31 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.00 |
| Prosiectau Rhestr Wrth Gefn | amh | amh | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.81 | 19.69 | 20.00 | 12.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 61.87 |
| **Is-gyfanswm Prosiectau** | | | **0.12** | **1.66** | **1.12** | **10.64** | **20.80** | **66.41** | **58.33** | **39.08** | **24.28** | **12.37** | **0.02** | **0.02** | **0.00** | **0.00** | **234.85** |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y Cynllun Twf | | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 0.71 | 1.35 | 0.66 | 0.50 | 0.30 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Gwariant disgwyliedig erbyn 31/03** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **11.35** | **22.15** | **67.07** | **58.83** | **39.38** | **24.43** | **12.47** | **0.12** | **0.12** | **0.07** | **0.05** | **240.00** |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

6 Chwefror 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Sefyllfa Refeniw a Chyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Rhagfyr 2025. |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno rhagamcanion alldro incwm a gwariant blwyddyn lawn yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (y Cynllun Twf) yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Is-bwyllgor fod yn ymwybodol o'r sefyllfa gwariant a ragwelir yn erbyn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd.

1.3. Cyflwynwyd yr adolygiad i'r Bwrdd Portffolio ar 16 Ionawr 2026 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. I nodi yr adolygiad refeniw diwedd Rhagfyr 2025, gan gynnwys y sefyllfa cronfeydd wrth gefn (Atodiad 1 a 2).

2.2. I nodi a derbyn proffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Cynllun Twf (Atodiad 3).

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhagwelir tanwariant o £618,025 yn erbyn cyllideb refeniw yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer 2025/26. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r swm a hawlir o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r gronfa adnoddau, a gofynnir am gymeradwyaeth pan gyflwynir yr adroddiad alldro i'r CBC.

3.2. I nodi llithriad ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £22.15m yn 2025/26 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £29.61m ar gyfer y flwyddyn.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyllideb refeniw a chyfalaf 2025/26 yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2025.

4.2. Rhagwelir tanwariant pellach ar gyfer yr is-bwyllgor Lles Economaidd, lle mae disgwyl £618,025 o danwariant o'i gymharu â £280,562 a amcangyfrifwyd yn adolygiad Gorffennaf 2025. Mae hyn oherwydd tanwariant pellach mewn gwariant gweithwyr a rolau llywodraeth ychwanegol, gwasanaethau Cefnogol y corff atebol a'r pennawd prosiectau.


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.3. Mae proffil cyfalaf Cynllun Twf diwygiedig hefyd wedi'i ddarparu yn dilyn adolygiad portffolio gan Uchelgais Gogledd Cymru.

4.4. Bydd yr adroddiad alldro ar gyfer 2025/26 yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ar 12 Mehefin 2026.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o wariant gwirioneddol ac incwm fesul pennawd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2025, ynghyd â rhagamcaniad alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2. Amcangyfrifir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26 yn danwariant o £618,025. Mae hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn gwariant gweithwyr a rolau llywodraeth ychwanegol, gwasanaethau Cefnogol y corff atebol a'r pennawd prosiectau. Roedd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn llwyddiannus yn ei gais Cronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi cyfrannu ymhellach at y tanwariant mewn gwariant gweithwyr.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.3. Mae tanwariant o £436,732 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r prif danwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd gwariant gweithwyr a rolau llywodraeth ychwanegol.

5.4. Llenwyd swyddi a oedd yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol neu disgwylir iddynt gael eu llenwi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol neu ar ddechrau 2026/27, sydd wedi arwain at danwariant mewn gwariant gweithwyr. Mae'r cyllid a dderbyniwyd gan grant Cynllunio Ynni Ardal Leol a Chronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer 2025/26 hefyd wedi'i ddefnyddio i ariannu costau dau swyddog a chyfran o'r costau ar gyfer staff eraill. Mae cefnogaeth tri swyddog a'r Cyfarwyddwr Portffolio blaenorol i'r CBC am un i dri diwrnod yr wythnos hefyd wedi arwain at danwariant mewn gwariant gweithwyr.

5.5. Mae rhan o'r tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio i ariannu costau ymgynghorydd allanol dros dro i gefnogi'r Rhaglen Ynni y tu hwnt i'r grant Cynllunio Ynni Ardal Leol.

5.6. Mae recriwtio rolau llywodraeth ychwanegol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol, felly hefyd yn cyfrannu at y tanwariant. Fodd bynnag, disgwylir i recriwtio ychwanegol, gan gynnwys recriwtio Cyfarwyddwr Portffolio, arwain at orwariant mewn hysbysebu ac asesu costau ymgeiswyr.

5.7. Mae'r pennawd datblygu portffolio a rhaglenni yn dangos gorwariant oherwydd gwaith a wnaed ar adolygiadau achosion busnes portffolio a chymorth carbon ac allyriadau. Bydd y tanwariant a ddangosir o dan bennawd datblygu achosion busnes y prosiectau yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gorwariant hwn.

5.8. Mae'r pennawd yswiriant yn dangos gorwariant o £11,800 oherwydd bod rhan fwyaf o'r gost wedi'i dosrannu rhwng y CBC a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn seiliedig ar gostau cyllideb gweithwyr. Er bod y gyllideb systemau wedi'i chynnwys i ariannu costau'r System Rheoli Pwyllgorau (nad yw bellach yn debygol o gael ei gweithredu tan 2026/27), mae gwariant wedi'i wneud ar blatfform a datblygu system rheoli prosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.9. Yr amcangyfrif o danwariant ar y pennawd hwn yw £44,230 oherwydd recriwtio staff Cyngor Gwynedd sy'n cefnogi'r CBC i'w gynnal ar ôl i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gael ei derfynu.

Cyd-bwyllgor

5.10. Mae pennawd y Cyd-bwyllgor yn dangos gorwariant net o £9,204 gyda'r tanwariant a ragwelir mewn ffioedd cyllidol allanol a'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn gwrthbwyso'r cynnydd mewn costau cefnogaeth gyfreithiol allanol.

Prosiectau

5.11. Y tanwariant net disgwyliedig ar y pennawd hwn yw £60,794. Mae gorwariant mewn costau cefnogaeth gyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, fodd bynnag, disgwylir tanwariant ar gostau datblygu achosion busnes y prosiectau, costau cefnogaeth gyllidol allanol, cefnogaeth caffael allanol a sicrwydd.

5.12. Mae'r pennawd cyflawni prosiectau yn ymwneud â gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac sy'n cael eu hystyried fel gwariant refeniw.

Cynlluniau Grant

5.13. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Ynni Ardal Leol a Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant. Mae cyllid y Cynllun Ynni Ardal Leol wedi'i dderbyn tan fis Mawrth 2026, tra bod cadarnhad wedi'i dderbyn yn ddiweddar y gellir hawlio'r cyllid ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd at fis Medi 2026. Yn dilyn ailbroffilio cyllideb y Gronfa Ffyniant Gyffredin, disgwylir y bydd y gwariant hyd at 31 Mawrth 2026 yn £426,451, gyda'r £17,799 sy'n weddill i'w wario a'i hawlio yn 2026/27.

Cyfraniadau Cyllid

5.14. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (dyraniad refeniw ac ariannu costau staff prosiectau a chostau cyflawni prosiectau), grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a'r gronfa adnoddau.

5.15. Y defnydd a ragwelir o'r grant Cynllun Twf ar gyfer prosiectau yw £262,148 o'i gymharu â'r gyllideb o £116,675. Mae hyn oherwydd y grant yn ariannu 50% o gostau staff a oedd wedi'u hariannu 100% gan grant ynni Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, cynnydd yn nifer y staff a benodwyd ar gyfer prosiectau digidol a gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd.

Cronfeydd wrth gefn

5.16. Mae Atodiad 2 yn dangos amcangyfrif o'r balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2026.

5.17. Cyfanswm y balans cronfa wrth gefn a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2025 oedd £210,977, ac mae £60,990 o'r gronfa wrth gefn hon wedi'i ddyrannu i gyllideb 2025/26 i roi balans amcangyfrifedig o £149,987 ar 31 Mawrth 2026.

5.18. Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn 2024/25, talwyd costau o £123,133 yn ymwneud â'r Prosiect Ynni Lleol Glân o'r gronfa gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r Achos Busnes Llawn bellach wedi'i gymeradwyo, felly bydd £123,133 o grant y Cynllun Twf yn cael ei drosglwyddo i’r gronfa wrth gefn.

5.19. Mae'r gronfa llog wedi'i neilltuo i ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Ei balans amcangyfrifedig ar 31 Mawrth 2026 yw £5,006,863 ac mae hyn yn cynnwys cyfraniadau llog partneriaid o £108,380 ac amcangyfrif o £165,000 o incwm log ar balans y gronfa.

5.20. Defnyddir y gronfa adnoddau wrth gefn i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau, yn ogystal â chadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae £412,085 o'r gronfa hon wedi'i ddyrannu i gyllideb 2025/26 a disgwylir log o £1.5m ar falans grant y Cynllun Twf i roi balans amcangyfrifedig o £3,888,146 ar 31 Mawrth 2026.

Cyfalaf

5.21. Mae Atodiad 3 yn dangos y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar ddiwedd mis Rhagfyr 2025.

5.22. Mae gostyngiad net o £7.46m yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2025/26 ac mae hyn oherwydd llithriad ar brosiectau. Fodd bynnag, mae'r gwariant ar brosiectau Cydnerth, Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a Hwb Economi Wledig Glynllifon wedi symud ymlaen ac felly wedi lleihau'r llithriad.

5.23. Cynhaliwyd adolygiad portffolio gan Uchelgais Gogledd Cymru, a arweiniodd at ddileu rhai prosiectau'r Cynllun Twf a sefydlu Rhestr Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae rhai prosiectau a oedd ar y Rhestr Wrth Gefn wedi sicrhau cyllid ar ôl cymeradwyo eu hachosion busnes ac felly disgwylir i'r gwariant gynyddu yn 2026/27 o'i gymharu â'r gyllideb proffil cyfalaf 2025/26 a gymeradwywyd yn Chwefror 2025. Mae Cymdeithas 5.0 yn brosiect newydd sy'n dilyn y broses Rhestr Wrth Gefn, a disgwylir y bydd gwariant yn cael ei wneud yn 2025/26.

## 6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

6.1. Cyflwynwyd yr adroddiad a’i atodiadau i'r Bwrdd Portffolio ar 16 Ionawr 2026 ac fe’u cymeradwywyd gan y CBC ar 23 Ionawr 2026.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae Uwch Swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Cyllideb Refeniw yr Is-bwyllgor Lles Economaidd 2025/26 – Adolygiad Diwedd Rhagfyr 2025

**Atodiad 2** Sefyllfa cronfeydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**Sefyllfa Ariannol yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (Rhagfyr 2025)** **Atodiad 1**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Rhagfyr 2025 | Ymrwymiadau Rhagfyr 2025 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,558,280 | 0 | 1,558,280 | 911,230 | 0 | 1,170,263 | (388,017) |
| Rolau Llywodraeth Ychwanegol | 206,320 | 0 | 206,320 | 20,000 | 40,403 | 85,403 | (120,917) |
| Ymgynghorydd Allanol | 0 | 0 | 0 | 16,715 | 14,852 | 31,567 | 31,567 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 2,500 | 0 | 2,500 | 7,521 | 0 | 15,000 | 12,500 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 | 0 | 10,000 | 2,677 | 385 | 5,000 | (5,000) |
| Hyfforddiant | 18,000 | 0 | 18,000 | 849 | 0 | 18,000 | 0 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 | 0 | 10,000 | 3,990 | 317 | 7,000 | (3,000) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 | 0 | 25,000 | 15,619 | 12,542 | 29,000 | 4,000 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 15,000 | 0 | 15,000 | 9,165 | 7,535 | 20,000 | 5,000 |
| Eiddo | 36,000 | 0 | 36,000 | 7,767 | 0 | 36,000 | 0 |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 | 0 | 30,000 | 21,000 | 24,500 | 45,500 | 15,500 |
| Yswiriant | 4,130 | 0 | 4,130 | 15,930 | 0 | 15,930 | 11,800 |
| Systemau | 9,540 | 0 | 9,540 | 9,375 | 0 | 9,375 | (165) |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,924,770** | **0** | **1,924,770** | **1,041,838** | **100,534** | **1,488,038** | **(436,732)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 113,330 | 0 | 113,330 | 0 | 0 | 80,040 | (33,290) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 44,980 | 0 | 44,980 | 0 | 0 | 36,650 | (8,330) |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 28,430 | 0 | 28,430 | 0 | 0 | 25,820 | (2,610) |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 48,350 | 0 | 48,350 | 12,164 | 0 | 48,350 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 28,440 | 0 | 28,440 | 0 | 0 | 28,440 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **263,530** | **0** | **263,530** | **12,164** | **0** | **219,300** | **(44,230)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 37,332 | 0 | 49,776 | 31,776 |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 | 1,445 | 0 | 2,428 | (7,572) |
| Ffi Archwilio Allanol | 28,350 | 0 | 28,350 | 0 | 0 | 28,350 | 0 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | (15,000) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **71,350** | **0** | **71,350** | **38,777** | **0** | **80,554** | **9,204** |
| **Prosiectau** | | | | | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 150,000 | 0 | 150,000 | 70,095 | 8,333 | 120,000 | (30,000) |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 150,000 | 0 | 150,000 | 77,095 | 0 | 197,000 | 47,000 |
| Cefnogaeth Gyllidol Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 5,000 | (45,000) |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 20,000 | (30,000) |
| Sicrwydd | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 4,950 | 15,000 | (35,000) |
| Cyflawni Prosiectau | 0 | 0 | 0 | 50 | 0 | 32,206 | 32,206 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **450,000** | **0** | **450,000** | **147,240** | **13,283** | **389,206** | **(60,794)** |
| **Cynlluniau grant** | | | | | | | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 80,040 | 80,040 | 67,808 | 0 | 80,040 | 0 |
| Costau cysylltiedig eraill - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 10,310 | 10,310 | 1,777 | 2,593 | 10,310 | 0 |
| Ymgynghorydd Allanol - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 79,920 | 79,920 | 52,956 | 26,964 | 79,920 | 0 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Lleol | 0 | 6,800 | 6,800 | 6,800 | 0 | 6,800 | 0 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 | 196,870 | 196,870 | 155,008 | 0 | 196,575 | (295) |
| Costau cysylltiedig eraill - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 | 16,865 | 16,865 | 12,928 | 0 | 16,435 | (430) |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 0 | 230,515 | 230,515 | 130,558 | 63,514 | 213,441 | (17,074) |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **0** | **621,320** | **621,320** | **427,835** | **93,071** | **603,521** | **(17,799)** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | | | | | | | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 108,380 | 0 | 108,380 | 0 | 0 | 108,380 | 0 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd** | **108,380** | **0** | **108,380** | **0** | **0** | **108,380** | **0** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,818,030** | **621,320** | **3,439,350** | **1,667,854** | **206,888** | **2,888,999** | **(550,351)** |

**Sefyllfa Ariannol yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (Rhagfyr 2025)** **Atodiad 1**

| Incwm | Cyllideb (£) | Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Rhagfyr 2025 (£) | Ymrwymiadau Rhagfyr 2025 (£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 | (58,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 | (58,730) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 | (58,730) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 | (58,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 | (58,730) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 | (58,730) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 | (29,380) | 0 |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 | (29,380) | 0 |
| Coleg Cambria | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 | (29,380) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 | (29,380) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (13,420) | 0 | (13,420) | (13,420) | 0 | (13,420) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (11,870) | 0 | (11,870) | (11,870) | 0 | (11,870) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (18,710) | 0 | (18,710) | (18,710) | 0 | (18,710) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (13,730) | 0 | (13,730) | (13,730) | 0 | (13,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,290) | 0 | (8,290) | (8,290) | 0 | (8,290) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (23,210) | 0 | (23,210) | (23,210) | 0 | (23,210) | 0 |
| Prifysgol Wrecsam | (10,070) | 0 | (10,070) | (10,070) | 0 | (10,070) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (9,080) | 0 | (9,080) | (9,080) | 0 | (9,080) | 0 |
| **Eraill** | | | | | | | |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru | (1,350,000) | 0 | (1,350,000) | 0 | 0 | (1,350,000) | 0 |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (Prosiectau) | (116,675) | 0 | (116,675) | 0 | 0 | (262,148) | (145,473) |
| Cyfalafu Costau Staff | (60,000) | 0 | (60,000) | 0 | 0 | 0 | 60,000 |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | 0 | (177,070) | (177,070) | (98,948) | 0 | (177,070) | 0 |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | 0 | (444,250) | (444,250) | (132,786) | 0 | (426,451) | 17,799 |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (60,990) | 0 | (60,990) | 0 | 0 | (60,990) | 0 |
| Cronfa Adnoddau | (412,085) | 0 | (412,085) | 0 | 0 | (412,085) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,818,030)** | **(621,320)** | **(3,439,350)** | **(1,050,014)** | **0** | **(3,507,024)** | **(67,674)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **617,840** | **206,888** | **(618,025)** | **(618,025)** |

**Sefyllfa cronfeydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd** **Atodiad 2**

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025** | **(210,977)** |
| Dyraniad cyllideb 2025/26 | 60,990 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026** | **(149,987)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2025** | **(29,167)** |
| Trosglwyddiad i mewn yn 2025/26 | (123,133) |
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2026** | **(152,300)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025** | **(4,733,483)** |
| Cyfraniadau 2025/26 | (108,380) |
| Amcan llog ar falansau 2025/26 | (165,000) |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2026** | **(5,006,863)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2025** | **(2,800,231)** |
| Defnydd yn 2025/26 | 412,085 |
| Amcan llog ar falansau 2025/26 | (1,500,000) |
| **Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2026** | **(3,888,146)** |

**2025/26 Cyllideb Cyfalaf Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adolygiad diwedd Rhagfyr 2025** **Atodiad 3**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.00 | 0.65 | 0.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | 4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.29 | 2.82 | 2.36 | 0.57 | 0.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.17 |
| Digidol | LPWAN (Campws Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.15 | 0.52 | 0.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.02 | 0.02 | 0.00 | 0.00 | 1.14 |
| Digidol | Di-Wifr Uwch (Campws Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.09 | 6.76 | 8.56 | 0.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.54 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Glân | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.83 | 5.63 | 6.95 | 6.20 | 4.02 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | NWH Ltd (Jones Bros) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 1.50 | 4.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.15 | 5.76 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.20 | 3.59 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Tir ac eiddo | Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.32 | 1.68 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.00 |
| Tir ac eiddo | Porth y Porthladd Rhydd | Cyngor Sir Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.70 | 0.78 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.48 |
| Tir ac eiddo | Ysgol Fusnes Albert Gubay | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.99 | 1.32 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.31 |
| Tir ac eiddo | Padeswood | Trafnidiaeth Cymru / Network Rail | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.10 | 2.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.20 |
| Tir ac eiddo | Porthladd Mostyn | Port of Mostyn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.00 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.58 | 1.68 | 0.70 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 9.06 | 2.18 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.99 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Cymdeithas 5.0 | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Prosiect Prince | Knauf | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 11.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.40 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 6.87 | 3.79 | 0.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 2.00 | 1.35 | 0.08 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.71 | 1.49 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Venue Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 3.44 | 0.31 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.00 |
| Prosiectau Rhestr Wrth Gefn | amh | amh | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.81 | 19.69 | 20.00 | 12.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 61.87 |
| **Is-gyfanswm Prosiectau** | | | **0.12** | **1.66** | **1.12** | **10.64** | **20.80** | **66.41** | **58.33** | **39.08** | **24.28** | **12.37** | **0.02** | **0.02** | **0.00** | **0.00** | **234.85** |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y Cynllun Twf | | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 0.71 | 1.35 | 0.66 | 0.50 | 0.30 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Gwariant disgwyliedig erbyn 31/03** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **11.35** | **22.15** | **67.07** | **58.83** | **39.38** | **24.43** | **12.47** | **0.12** | **0.12** | **0.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Chwefror 2025)** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **12.51** | **29.61** | **40.86** | **59.28** | **42.58** | **22.45** | **8.10** | **8.20** | **7.33** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Gwahaniaeth** | | | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **-1.16** | **-7.46** | **26.21** | **-0.45** | **-3.20** | **1.98** | **4.37** | **-8.08** | **-7.21** | **-5.00** | **0.00** | **0.00** |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

6 Chwefror, 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam<br>- Cynllun Cyflawni Blynyddol (ADP) Blwyddyn 2 |
| AWDURON: | Alwen Williams, Prif Weithredwr<br>Iain Taylor, AMION Consulting |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae ffocws yr adroddiad hwn ar Gynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2 ac yn nodi'r rhaglen arfaethedig ar gyfer y Flwyddyn 2026-27. Mae'n ymdrin â'r cynnydd a wnaed hyd yma ym Mlwyddyn 1 a rhai o'r gweithgareddau allweddol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Blwyddyn 2. Mae'r dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn am gael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2 a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i hawlio'r cyllid Blwyddyn 2 (disgwylir iddo ddod i law ym mis Ebrill 2026).

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Gofynnir i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd:

- Gymeradwyo dyraniadau buddsoddi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2 a nodi'r dyraniadau ym Mlwyddyn 1 fydd yn cael eu defnyddio fel rhan o'r rhaglen Blwyddyn 2.
- Cymeradwyo'r Rhaglenni Parth Buddsoddi fel sydd wedi'u nodi yn Adran 4 yr adroddiad hwn, yn cynnwys dyraniad £4m i brosiect Porth Busnes Prifysgol Wrecsam.
- Caniatáu i swyddog a151 y CBC lofnodi a chyhoeddi dogfennau'r ADP i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gwneud unrhyw fân ddiwygiadau amherthnasol pellach sy'n angenrheidiol i gytuno ar yr ADP gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1. Cefndir

4.1.1 Mae'n ofynnol i Barthau Buddsoddi gytuno ar Gynlluniau Cyflawni Blynyddol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau'r taliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill ym mhob blwyddyn ariannol. Telir arian ymlaen llaw ym mis Ebrill ar gyfer gwariant disgwyliedig yn y flwyddyn ariannol. Adroddir ar wariant

ym mhob Cynllun Cyflawni Blynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

## 4.2. Diweddariadau Allweddol

4.2.1 Cytunwyd ar Gynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 1 gyda'r Llywodraeth. Mae'r diweddariadau allweddol mewn perthynas â Blwyddyn 1 a chynllunio ar gyfer Blwyddyn 2 fel a ganlyn:

- Addasiadau i ddyraniadau sgiliau i ganiatáu £4m i gefnogi prosiect Porth Busnes Prifysgol Wrecsam;
- Parhau i ymgysylltu â Phrifysgol Wrecsam a Choleg Cambria i bennu'r rhaglenni sgiliau cychwynnol. Disgwylir i'r cynigion gael eu hystyried gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol cyn cael eu hystyried gan y CBC;
- Mae Trafnidiaeth Cymru yn cwblhau'r Achos Busnes Trawsnewid Bysiau;
- Bydd y Prosiect Cyfalaf Bysiau yn paratoi Achos Busnes yn y gwanwyn/haf 2026;
- Mae Airbus wedi paratoi Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiect y Ganolfan Parodrwydd Gweithgynhyrchu ac mae angen £14m arall gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhan o gynnig ehangach sy'n cynnwys Canolfan Logisteg newydd ar y safle;
- Mae cynigion ar gyfer Canolfan Sgiliau ac Arloesi yn Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam yn cael eu paratoi gan AMRC, Cynghrair Arweinyddiaeth Wrecsam, Cyngor Wrecsam a Phrifysgol Wrecsam. Mae Cam 1 yn astudiaeth ddichonoldeb. Mae £3m o'r dyraniad £5m hwn yn cael ei ddyrannu i'r Prosiect Porth Busnes;
- Efallai y bydd dyraniad Padeswood Sidings ym Mlwyddyn 1 yn cynyddu – trafodaeth a chytundeb pellach gyda phartneriaid y Parth Buddsoddi a Chynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru i gytuno ar newid i'r dyraniad presennol;
- Mae Pochin Goodman yn paratoi achos busnes ar gyfer buddsoddi i ddatgloi eu safle ym Mhorth Glannau Dyfrdwy;
- Mae UtopiaCity yn paratoi achos busnes ar gyfer buddsoddiad i ddatgloi eu datblygiad. Y cynnig yw bod £5m yn cael ei ddyrannu i uwchraddio'r seilwaith carthffosiaeth oddi ar y safle a gofynnir am £5m arall o'r Cynllun Twf;
- Mae rhaglenni Cymorth Busnes wedi'u datblygu gan Gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam ac maent yn barod i'w lansio unwaith y bydd yr arian yn ei le;
- Cefnogaeth busnes ynghylch y cyfle buddsoddi ar draws Sir y Fflint;
- Rydym yn disgwyl y Memorandwm o Ddealltwriaeth a'r Llythyr Cynnig Grant yn fuan iawn; a
- Datblygiad parhaus y Strategaethau Buddsoddi NDR lleol (yn amodol ar gymeradwyaeth Cynghorau unigol).

## 4.3. Trosolwg o'r Rhaglen

4.3.1 Mae'r isod wedi'i fwrw ymlaen ym Mlwyddyn 1 y rhaglen Parth Buddsoddi.

### a) Cynllunio a Rhaglen

- paratoi a chytuno ar ofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer Pyrth 1-5
- paratoi a chytuno ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth
- paratoi a chytuno â'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod
- datblygu a chytuno â Chynllun Gweithredu Safle Treth
- datblygu a chytundeb y Cyngor i Gynllun Cychwyn Cronfa Buddsoddi NDR Wrecsam

- datblygu a chytundeb y Cyngor i Gynllun Cychwyn Cronfa Buddsoddi NDR Sir y Fflint
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Adrannau Cynllunio Sir y Fflint a Wrecsam ar gyfer Uned Cynllunio Parth Buddsoddi
- recriwtio swyddogion arweiniol datblygu Parth Buddsoddi yng Nghynghorau Sir y Fflint a Wrecsam
- cefnogi a chymeradwyaeth y CBC i Achos Busnes Buddsoddi Knauf (prosiect y Cynllun Twf)
- hyrwyddo'r Parth Buddsoddi i fforymau a digwyddiadau ymgysylltu
- cefnogaeth i bartneriaethau allweddol, yn benodol (nodi mewn mwy o fanylder yn adran 3.3):
  - Rhaglen Partneriaeth Arloesi
  - Rhaglen Datgarboneiddio Parth Buddsoddi
  - Trafnidiaeth i Gymru - Achos Busnes dros Drawsnewid Bysiau
  - Y Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol

b) Sgiliau

- Y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam yn datblygu prosiectau cyfnod cynnar, wedi'u paratoi er ymgynghori â'r RSP ym mis Mawrth 2026
- Datblygu pellach penodol o raglen cyn-16, rhwydwaith entrepreneuraidd a rhaglen Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ar gyfer Ymchwil a Datblygu busnesau
- Datblygu a chymeradwyaeth RSP i Gynllun Sgiliau Parth Buddsoddi
- Sefydlu Grŵp Sgiliau Parth Buddsoddi fel is-grŵp i'r RSP

c) Cymorth i Fusnes neu Randdeiliaid

- Sefydlu perthynas â phartneriaid buddsoddi, tirfeddianwyr a datblygwyr allweddol
- Ymgysylltu â busnesau sydd â diddordeb mewn tyfu a buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam
- Dylunio cynllun grantiau bach yn barod i'w lansio yn Ch1 2026
- Ymgysylltu â Phrifysgol Wrecsam a CC ar gysyniadau cymorth arloesi i fusnesau

d) Seilwaith

- Paratoi Achos Busnes Amlinellol Strategol y Ganolfan Arloesi gan Airbus a Choleg Cambria
- Amlinellu cynnig ar gyfer seilwaith i ddatgloi parseli datblygu sy'n weddill ym Mhorth Glannau Dyfrdwy
- Ymgysylltu parhaus â thirfeddianwyr ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam ynghylch gofynion seilwaith
- Datblygu cysyniad ar gyfer cyfleuster Arloesi / Busnesau SME yn WIE
- Datblygu achos busnes ar gyfer trawsnewid bysiau
- Sefydlu ffrwd waith ar gyfer Cyflenwi Lliniaru Ecolegol Strategol ar gyfer WIE

4.4. Rhaglenni a gaffaelwyd

4.4.1 Mae caffael Rhaglen Arloesi'r Parth Buddsoddi a dichonoldeb ac arddangos Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol Cymru wedi datblygu'n dda a disgwylir iddo ddechrau ym mis Chwefror 2026. Mae dylunio'r rhaglen datgarboneiddio Parth Buddsoddi yn destun mireinio

ymhellach gyda phartneriaid datgarboneiddio rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys Diwydiant Sero Net Cymru, NEWID a Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy.

## 4.5. Dyraniadau Cyllid Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

Mae'r tablau canlynol yn nodi'r dyraniadau cyllid ADP, wedi'u trefnu yn ôl Thema ac yn dangos y dyraniadau cyfalaf (CDEL) a refeniw (RDEL) ym mlynyddoedd ariannol 2025-26 (sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026) a 2026-27 (sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2027).

### 4.5.1 Seilwaith

Fel yr amlinellwyd uchod, y prosiectau seilwaith allweddol ym Mlynyddoedd 1 a 2 yw:

- sefydlu rhaglen trawsnewid bysiau, a baratowyd gan Trafnidiaeth i Gymru ac y cytunwyd arni gan arweinyddion trafnidiaeth Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam;
- buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi'r rhaglenni sgiliau ac arloesi;
- buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi twf safleoedd treth yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam; a
- cyfraniad cyfalaf i brosiect Padeswood Siding (a ddyrennir ar hyn o bryd ar £2m ond gellid ei gynyddu i hyd at £6m yn amodol ar y broses o gais am newid rhwng Llywodraeth Cymru a Chynllun Twf UGC).

| | | | Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa) | | | Blwyddyn 2 2026/27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect | Ffocws Gofodol a Chodau Post | Swm Cyllid IZ | CDEL | RDEL | Cyfanswm | CDEL | RDEL | Cyfanswm |
| Rhaglen Trawsnewid Bysiau, a gefnogir fel gwariant refeniw | Sir y Fflint a Wrecsam | £20,000,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £2,250,000 | £2,250,000 |
| Buddsoddiad cyfalaf i gefnogi'r rhaglen trawsnewid bysiau | Sir y Fflint a Wrecsam | £4,500,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | |
| Prosiect y Ganolfan Menter, Peirianneg ac Opteg: Cymorth Academaidd ac Allbwn Ymchwil a Datblygu<br>Porth Busnes Wrecsam (£1m)<br>Prifysgol Wrecsam - Offer yn yr EEOC | Wrecsam | £3,350,000 | £0 | £0 | £0 | £1,000,000 | £0 | £1,000,000 |
| Canolfan Parodrwydd Gweithgynhyrchu gydag Airbus + CS (Sir y Fflint) | Sir y Fflint | £17,600,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Canolfan Trawsnewid Diwydiant gydag AMRC (Wrecsam) £2m<br>Porth Busnes Prifysgol Wrecsam (£3m) | Wrecsam | £5,000,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Cymorth grant i ddatgloi safleoedd cyflogaeth allweddol, sy'n canolbwyntio ar Safleoedd Treth IZ<br>Wedi'i ddyrannu i ddatgloi UtopiaCity neu seilwaith ehangach ar WIE | Wrecsam | £5,000,000 | £0 | £0 | £0 | | £0 | £0 |
| Padeswood Sidings - newid yn y dyraniad yn amodol ar drafodaeth a chytundeb | Sir y Fflint | £2,000,000 | £2,000,000 | £0 | £2,000,000 | £0 | £0 | £0 |
| Porth Wrecsam gan gynnwys Teithio Llesol | Wrecsam | £5,000,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Porth Glannau Dyfrdwy (Pochin Goodman) | Sir y Fflint | £3,500,000 | £0 | £0 | £0 | £3,500,000 | £0 | £3,500,000 |
| Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam<br>Alinio â Phrosiect Uwchraddio Carthffos | Wrecsam | £5,000,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |

### 4.5.2 Ymchwil ac Arloesi

Mae'r ddau brosiect ymchwil a datblygu allweddol yn bartneriaeth â Phrifysgol Bangor i archwilio cyfleoedd i wella cysylltedd digidol a data ar draws Sir y Fflint a Wrecsam a dyraniadau cyfalaf i brosiectau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu gyda busnesau lleol.

| Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect | Ffocws Gofodol a Chodau Post | Swm Cyllid IZ | Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa) | | | Blwyddyn 2 2026/27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | CDEL | RDEL | Cyfanswm | CDEL | RDEL | Cyfanswm |
| Prosiect Data Prifysgol Bangor | Sir y Fflint a Wrecsam North Wales | **£1,017,995** | £59,550 | £59,550 | £119,100 | £59,550 | £59,550 | £119,100 |
| Grantiau cymorth busnes dan arweiniad Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam | Sir y Fflint a Wrecsam | **£7,909,550** | £150,000 | £0 | £150,000 | £950,000 | £0 | £950,000 |
| **Cyfanswm** | | **£8,927,545** | **£209,550** | **£59,550** | **£269,100** | **£1,009,550** | **£59,550** | **£1,069,100** |

### 4.5.3 Cymorth Busnes

Mae elfennau allweddol y rhaglen cymorth busnes yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau gyda thalebau arloesi, wedi'u cydlynu gan Brifysgol Wrecsam, rhaglen grantiau cyfalaf (gan gynnwys micrograntiau) ar gyfer busnesau, wedi'i gwasgaru a'i rheoli gan y ddau Gyngor.

| Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect | Ffocws Gofodol a Chodau Post | Swm Cyllid IZ | Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa) | | | Blwyddyn 2 2026/27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | CDEL | RDEL | Cyfanswm | CDEL | RDEL | Cyfanswm |
| Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, Talebau, Prosiectau Mini-Llawn, 130-140 talebau y flwyddyn | Sir y Fflint a Wrecsam | **£4,675,300** | £0 | £667,900 | £667,900 | £200,000 | £467,900 | £667,900 |
| Grantiau ar gyfer Twf Gweithgynhyrchu | Sir y Fflint a Wrecsam | **£6,500,000** | £6,500,000 | | £6,500,000 | | | |
| Cyflawni grantiau ar gyfer twf gweithgynhyrchu | Sir y Fflint a Wrecsam | **£8,100,000** | £950,000 | £0 | £950,000 | £950,000 | £0 | £950,000 |
| Cydlynu trefniadau cymorth busnes presennol a chymorth micro-grant | Sir y Fflint a Wrecsam | **£950,000** | £0 | £0 | £0 | £50,000 | £50,000 | £100,000 |
| | | **£20,225,300** | **£7,450,000** | **£667,900** | **£8,117,900** | **£1,200,000** | **£517,900** | **£1,717,900** |

### 4.5.4 Sgiliau

Mae trafodaethau manwl yn parhau gyda'r partneriaid sgiliau craidd (Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam) ynglŷn â dyluniad penodol y rhaglen sgiliau gychwynnol. Y bwriad yw cyflwyno ystod o gyrsiau sgiliau a mentrau cyflogaeth sy'n wynebu busnesau sy'n mynd i'r afael ag anghenion y diwydiant ac yn cefnogi'r don nesaf o bobl sy'n gadael yr ysgol i ymgysylltu â'r rolau a grëir gan dwf a chyfleoedd yn y Parth Buddsoddi.

Bydd y dyraniadau ar gyfer Blwyddyn 1 yn cael eu hail-broffilio unwaith y bydd cadarnhad prosiect wedi'u sicrhau (disgwylir ym mis Mawrth 2026).

| Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect | Ffocws Gofodol a Chodau Post | Swm Cyllid IZ | Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa) | | | Blwyddyn 2 2026/27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | CDEL | RDEL | Cyfanswm | CDEL | RDEL | Cyfanswm |
| – Ymgysylltu STEM Cyn-16 gydag Ysgolion a sefydliadau'r Trydydd Sector<br>– Rhaglen Interniaeth<br>– Academi Sgiliau<br>– Buddsoddiad Cyfalaf yn safleoedd Coleg Cambria yng Nglannau Dyfrdwy a'r Bersham ar gyfer gwell cyfleusterau Prentisiaethau a darpariaeth cyswllt ysgolion<br>– Dyraniad Cyfalaf ar gyfer Cyflawni Sgiliau, gan gynnwys cyn-16 | Sir y Fflint a Wrecsam | £7,851,555 | £0 | £262,000 | £262,000 | £2,200,000 | £846,222 | £3,046,222 |
| – Bŵtcampoedd Sgiliau ar draws themâu Gweithgynhyrchu Uwch, Diwydiant 4.0 a Digidol, gyda chynnwys sy'n berthnasol i'r sector wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r diwydiant<br>– Cyd-greu datblygiad newydd a chyd-greu o offrymau cyfredol i gefnogi gofynion sgiliau sector-benodol | Sir y Fflint a Wrecsam | £8,029,600 | £0 | £336,700 | £336,700 | £604,500 | £941,200 | £1,545,700 |
| – Rhaglen hyfforddi sgiliau entrepreneuriaid wedi'i datblygu ar gyfer anghenion rhanbarthol / sector-benodol | Sir y Fflint a Wrecsam | £1,200,000 | £0 | £120,000 | £120,000 | £0 | £120,000 | £120,000 |
| – Cynllun cymhelliant prentisiaethau, sy'n cefnogi recriwtio a chadw Prentisiaethau Gweithgynhyrchu Uwch / Digidol, Prentisiaethau Peirianneg Uwch (L4) a Phrentisiaethau Gradd (L5/L6)<br>– Prentisiaethau Gradd gan gynnwys cyd-greu rhaglen MSc Rheoli Peirianneg a chymhellion i gefnogi ac ysgogi'r galw am raglenni<br>– PhDs a MRes | Sir y Fflint a Wrecsam | £4,486,000 | £0 | £373,000 | £373,000 | £0 | £373,000 | £373,000 |
| | | £21,567,155 | £0 | £1,091,700 | £1,091,700 | £2,804,500 | £2,280,422 | £5,084,922 |

### 4.5.5 Rhaglen

Mae £6.4m ar gael i gefnogi elfennau gweinyddol y rhaglen o'r rhaglen Parth Buddsoddi, £220,000 y flwyddyn i Sir y Fflint, £220,000 y flwyddyn i Wrecsam a £200,000 y flwyddyn i Uchelgais Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae £1m i gefnogi'r Uned Gynllunio yn Sir y Fflint a Wrecsam ac adnodd pellach i gefnogi astudiaethau a phrosiectau yn y Parth Buddsoddi. Mae'r tri cyntaf o'r prosiectau hyn wedi'u hamlinellu uchod.

| Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect | Ffocws Gofodol a Chodau Post | Swm Cyllid IZ | Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa) | | | Blwyddyn 2 2026/27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | CDEL | RDEL | Cyfanswm | CDEL | RDEL | Cyfanswm |
| Cyngor Sir y Fflint | Sir y Fflint | £2,200,000 | | £220,000 | £220,000 | | £220,000 | £220,000 |
| Cyngor Wrecsam | Wrecsam | £2,200,000 | | £220,000 | £220,000 | | £220,000 | £220,000 |
| CBC | Sir y Fflint a Wrecsam | £2,000,000 | | £200,000 | £200,000 | | £200,000 | £200,000 |
| Uned Gynllunio | Sir y Fflint a Wrecsam | £1,000,000 | | £200,000 | £200,000 | | £200,000 | £200,000 |
| Astudiaethau | Sir y Fflint a Wrecsam | £930,000 | | £195,000 | £195,000 | | £150,000 | £150,000 |
| | | £8,330,000 | | £1,035,000 | £1,035,000 | | £990,000 | £990,000 |

## 4.6. Cyfathrebu

4.6.1 Bydd yr ADP yn nodi'r strategaethau allweddol canlynol:

**Strategaeth Cyfathrebu**, i ddyrannu'r adnodd a nodi'r cyfleoedd cyfathrebu allweddol ym Mlwyddyn 1 a 2 y Parth Buddsoddi. Canolbwyntir i ddechrau ar y cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â lansio'r rhaglen ac yn ddiweddarach yn canolbwyntio ar gyhoeddiadau prosiectau a datblygiadau'r Parth Buddsoddi. Bydd y Strategaeth Gyfathrebu yn cael ei chytuno â

Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'i rheoli gan arweinwyr cyfathrebu yn y CBC gyda chefnogaeth swyddogion cyfathrebu yn y ddau Gyngor.

**Strategaeth Ymgysylltu,** gosod RACI ar gyfer sefydliadau allweddol a rhanddeiliaid i'r Parth Buddsoddi. Bydd y Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'i rheoli gan arweinwyr y rhaglen yn y CBC gyda chefnogaeth swyddogion arweiniol rhaglen y Parth Buddsoddi yn y ddau Gyngor.

**Strategaeth Marchnata,** i ddatblygu'r negeseuon, brandio a deunyddiau marchnata sydd ar gael i'r Parth Buddsoddi ac i amlinellu sut bydd y Parth Buddsoddi yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â phartneriaid allweddol. Bydd y Strategaeth Farchnata yn cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac yn cael ei rheoli gan arweinwyr cyfathrebu yn y CBC gyda chefnogaeth swyddogion cyfathrebu yn y ddau Gyngor.

## 4.7. Caffael Parth Buddsoddi

4.7.1 Y disgwyliad yw y bydd y CBC a dau Gyngor cynnal yn dilyn eu rheolau sefydlog contract caffael eu hunain neu eu Polisi Caffael wrth wario adnoddau'r Parth Buddsoddi ar wariant allweddol. Os yw'r CBC yn mynnu bod ei bolisi caffael ei hun yn cael ei ddilyn gan unrhyw drydydd parti, bydd yn nodi hyn yn y Cytundeb Cyllido Grantiau sydd wedi'i alinio â'r buddsoddiad dan sylw.

4.7.2 Dylai busnesau ddilyn gofynion y Cytundeb Cyllido Grant ac o leiaf ddilyn ysbryd caffael y sector cyhoeddus ac wrth gyflawni prosiectau gyda chefnogaeth y Parth Buddsoddi nodi sut maent yn bodloni amcanion polisi ehangach y Parth Buddsoddi o ran partneriaethau cymdeithasol, gan roi sylw arbennig i'r Datganiad Gwaith Teg.

4.7.3 Y disgwyliad yw bod yr holl wariant dros £2,500 yn cael ei dystiolaethu gyda thri dyfynbris a bod gweithgaredd a gomisiynwyd dros £25,000 yn cael ei hysbysebu naill ai drwy GwerthwchiGymru neu blatfform neu fframwaith priodol arall.

## 4.8. Cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynyddol

4.8.1 Bydd cymeradwyo'r adroddiad hwn yn galluogi i ddogfen ADP gael ei llofnodi gan Uwch Swyddog Cyllid (a151) y CBC. Bydd cymeradwyaeth i'r ADP gan y ddwy Lywodraeth yn galluogi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth terfynol a'r Llythyr Cynnig Cyllid Grant i gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd angen addasu'r ADP fel y mae wedi'i gyflwyno. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Gweithgor.

# 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Yn unol ag Adroddiad Blwyddyn 1 ADP, nodir y goblygiadau ariannol yn y tablau cyllideb uchod. Rydym yn rhagweld y bydd y cronfeydd sy'n gysylltiedig â Blwyddyn 1 yn cael eu derbyn gan y CBC ym mis Chwefror ar ôl cwblhau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer y Parth Buddsoddi, y Llythyr Cynnig Grant a'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Disgwylir y cronfeydd sy'n gysylltiedig â'r ADP hwn ym mis Ebrill 2026. Bydd y llog a enillir ar arian a dderbynnir yn cael ei amcangyfrif a'i gytuno â swyddog a151 y CBC a chytunir ar ddyraniadau ar gyfer y cyllid hwn rhwng partneriaid y Parth Buddsoddi. Y disgwyliad yw y bydd gofynion adnoddau y rhaglen Parth Buddsoddi yn gofyn am yr arian ychwanegol hwn. Mae'r IAA yn nodi'r sail ar gyfer cronfeydd refeniw i'w dyrannu i bartneriaid, a bydd proses hawlio syml yn cael ei datblygu i ddarparu llwybr archwilio o daliadau.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r rhaglen ADP Blwyddyn 2 hon yn amodol ar gwblhau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth, y Llythyr Cynnig Grant a'r IAA. Os bydd y CBC yn derbyn y Memorandwm o Ddealltwriaeth a'r Llythyr Cynnig Grant yr wythnos sy'n dechrau ar 2 Chwefror, y disgwyliad yw y gellid cwblhau'r IAA, Memorandwm o Ddealltwriaeth a'r Llythyr Cynnig Grant, o fewn 2 wythnos, fel bod modd derbyn yr arian ar gyfer ADP Blwyddyn 1 erbyn diwedd mis Chwefror ac arian ADP Blwyddyn 2 ym mis Ebrill 2026.

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Swyddog Monitro:

"Bydd y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn un o'r llwyfannau allweddol ar gyfer cyflawni a pherfformiad. Mae angen i'r CBC ystyried y cynllun yn y cyd-destun hwn a sicrhau ei fod yn fodlon gyda'r rhaglen a'r allbynnau arfaethedig. Fe'i datblygwyd drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Parth Buddsoddi."

### ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn gam allweddol yn llywodraethu'r rhaglen Parth Buddsoddi. Mae canllawiau'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ADP gael ei lofnodi gan Swyddog Adran 151 a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Byddaf yn parhau i gydweithio â chydweithwyr i sicrhau bod yr ADP yn cael ei gyflawni yn ôl yr angen ac i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol wrth ddatblygu'r Parth Buddsoddi."